CYTUNDEB DYSGU UNIGOL
MYFYRIWR (CDUM)

Mae'r coleg hwn yn herio anfantais a gwahaniaethu ym mhob ffurf. Rydym yn dymuno sicrhau bod pawb sydd yn rhan o'r coleg, ac eraill, yn cael eu trin yn deg. Os ydych yn unigolyn gydag anabledd, sicrhewch ein bod yn gwybod beth sydd ei angen arnoch er mwyn i ni allu gwneud pob addasiad rhesymol i'ch cynorthwyo i lwyddo.

Cadarnhaf fy mod, yn ystod y broses gofrestru, wedi cael cynnig:

- cyngor ac arweiniad ar fy newis o raglen astudio
- gwybodaeth ynghylch gofynion mynediad y cyrsiau

Deallaf y byddaf yn cael mynediad at y canlynol wrth sefydlu:

- tiwtor personol neu fentor, gydag amserlen ar gyfer tiwtorialau a gwybodaeth am gyfleoedd cwnsela a chymorth personol
- amserlen yn nodi fy oriau dysgu wythnosol
- rhaglen sefydlu
- Manylion am y rhaglenni astudio gan gynnwys y maes llafur, elfennau profiad gwaith, trefniadau arholi ffurfiol neu asesiadau
- rhaglen neu drefniant ar gyfer monitro a chofnodi cynnydd
- amserlen ac atodiad ar arweiniad gyrfaol
- copi o Siarter y Coleg, hawliau, gweithdrefn gwynion, polisi cyfle cyfartal, cod disgyblu, rheoliadau'r coleg ac unrhyw ddisgwyliadau ohonof i fel myfyriwr
- copi o ddatganiad y sefydliad yn unol â'r Ddeddf gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- gwybodaeth am gyfleusterau fel mynediad at ganolfannau adnoddau dysgu, TG, chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill a chynrychiolaeth ar bwyllgorau cyswllt myfyrwyr

Deallaf y byddaf, yn ystod fy nhymor cyntaf yn y coleg, yn cael cynnig:

- asesiad o'm gallu
- asesiad o anghenion cymorth eraill

Deallaf fod y coleg yn cydnabod fy hawl i:

- gyfle cyfartal i astudio waeth beth yw fy ngallu, anabledd, hil, diwylliant, oed, statws priodasol, rhyw neu rywioldeb
- gweithio mewn amgylchedd cyfforddus, di-fygythiad a diogel
- teimlo bod gwerth i mi
- cael fy sefydlu yn y coleg fydd yn fy ngalluogi i ddarganfod mwy am ei gyfleusterau, yr amrywiaeth o gyfleoedd a sut mae'n gweithio
- gwybodaeth glir am fy nghwrs gan gynnwys y mathau o weithgareddau dysgu y byddaf yn eu gwneud, beth fydd angen i mi ei wneud i lwyddo ym mhob pwnc, sut y byddaf yn cael fy asesu ac i ble allai'r cwrs arwain
- derbyn cyngor diduedd ar gyrsiau a gyrfaoedd
- adborth cyson gan y staff sy'n fy nysgu
- gweithio gyda staff addysgu sy'n ymwybodol o gyfle cyfartal
- cyfle i drafod fy nghwrs gyda'r staff a gwneud sylwadau ac awgrymiadau amdano
- gweithio gyda deunyddiau sy'n osgoi stereoteipio pobl
- mynediad at diwtor personol a/neu staff eraill am gymorth personol ac arweiniad
- mynediad at gwnselydd y coleg ac arweiniad ar yrfaoedd.

Rwy'n cydnabod fy ymrwymiadau ac yn cytuno i:

- wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd addysgol a ddarperir a dangos ymroddiad trylwyr i'r cwrs
- fodloni anghenion y cwrs, h.y. mynychu'r sesiynau'n gyson a phrydlon a dychwelyd yr aseiniadau ar amser
- cyfarfod fy Nhiwtor Personol ar yr amseroedd a drefnwyd i adolygu cynnydd
- ymddwyn yn y coleg mewn ffordd sy'n dangos parch tuag at fyfyrwyr eraill a staff a chydnabod hawl yr holl ddysgwyr eraill i gyfle cyfartal
- cadw at yr holl reoliadau iechyd a diogelwch priodol bydd y coleg yn fy ngwneud yn ymwybodol ohonynt
- dangos parch tuag at amgylchedd ac eiddo'r coleg
- peidio dod ag alcohol na chyffuriau anghyfreithlon i'r coleg na'u cymryd ar y safle
- gofalu am fy eiddo fy hun
- ymgyfarwyddo a chadw at reolau, rheoliadau, Cod Disgyblu a Gweithdrefn Apêl y coleg (mae copïau ar gael yn y Canolfannau Adnoddau Dysgu ar y ddau gampws)
- cadw at weithdrefn Asesu'r coleg ynghylch llên-ladrad

Deallaf fod y coleg:

- yn methu â derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu niwed i'm heiddo
- yn mynd i dalu fy ffioedd cwrs a/neu ffioedd arholiad cyn belled â fy mod yn parhau'n fyfyriwr llawn amser, **yn cynnal yr oriau astudio a gytunwyd arnynt wrth gofrestru, mynychu dosbarthiadau'n gyson a chyflwyno aseiniadau ar amser;** ac y gall beidio â thalu os nad ydwyf yn cyflawni'r amodau hyn.

Teipiwch eich enw a'r dyddiad yma i gadarnhau eich bod yn derbyn y cytundeb:

Enw: **Dyddiad:**